**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)**

**Y BIL DIOGELU DATA A GWYBODAETH DDIGIDOL**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru, os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw bwrpas o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Mawrth 2023. Mae'r Bil ar gael yn: Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol - Biliau Seneddol - Senedd y DU.

## Yr amcan(ion) polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw diweddaru a symleiddio fframwaith diogelu data'r DU gyda'r bwriad o leihau beichiau ar sefydliadau ond ar yr un pryd, gynnal y safonau uchel o ran diogelu data.

## Crynodeb o'r Bil

4. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) gwreiddiol a osodwyd ar 24 Mawrth 2023, sy'n parhau'n gywir.

## Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ers LCM 3, a osodwyd ar 11 Rhagfyr 2024

5. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd.

6. Mae ymgysylltu ar lefel swyddogol a lefel Weinidogol hefyd wedi parhau mewn perthynas â phryderon yn ymwneud ag effaith y Bil ar gadw Digonolrwydd Data'r UE ac mewn perthynas â goblygiadau datganoledig y darpariaethau canlynol (fel y nodir yn Memoranda blaenorol):

    - Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) - cymal 74, Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth (cymal 56 fel y'i cyflwynwyd);
    - Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau - cymalau 85-107 (cymalau 61-77 fel y'u cyflwynwyd);
    - Rhan 4, Darpariaeth arall am wybodaeth ddigidol - cymal 126, Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith (cymal 93 fel y'i cyflwynwyd) a chymal 127, Ystyr "appropriate national authority", a chymal 151 Rheoliadau; a

- Rhan 4, Darpariaeth arall ynghylch Gwybodaeth Ddigidol – cymalau 138–141 Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.

**Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol 1, 2 a 3**

7. O fewn yr LCM, LCM atodol 2 ac LCM atodol 3, a osodwyd ar 24 Mawrth, 25 Mai 2023 ac 11 Rhagfyr 2024 yn y drefn honno, argymhellodd cyn-Brif Weinidog Cymru y dylid rhoi cydsyniad mewn cysylltiad â:

    - Chymal 74 (54 fel y'i cyflwynwyd), Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol;
    - Cymal 98 (92 fel y'i cyflwynwyd), Rhan 4, Datgelu gwybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau.
    - Cymal 76 (gwelliant NC3), Gwybodaeth a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru.

8. Fodd bynnag, argymhellwyd na ddylid rhoi cydsyniad i'r darpariaethau canlynol i ganiatáu cynnal trafodaethau pellach rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y DU mewn perthynas â goblygiadau datganoledig ar:

    - Gymal 78, Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol (cymal 56 fel y'i cyflwynwyd);
    - Cymalau 85-107, Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau (61-77 fel y'u cyflwynwyd);
    - Cymal 126, Rhan 4, Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith ar waith (93 fel y'i cyflwynwyd) Ystyr "appropriate national authority" (cymal NC5), a chymal 151 Rheoliadau (cymal 108 fel y'i cyflwynwyd).

9. Mae'r trafodaethau hyn wedi dod i ben ac rwyf wedi rhoi’r manylion yn fy llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r copi ohono a anfonwyd at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 16 Ebrill.

10. Cyn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi, a ddechreuodd ar 20 Mawrth 2024, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'r Bil ar 13 Mawrth 2024.

11. Aseswyd y gwelliannau canlynol a gyflwynwyd ar 13 Mawrth gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd**:**

    - Gwelliant i gymal 96: Ardoll
    - Gwelliant i gymal 103: Rheoliadau o dan y Rhan hon (h.y. Rhan 3)
    - Gwelliant i gymal 138: Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol

- Gwelliant i gymal 139: Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar
- Gwelliant i Atodlen 13: Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol: cosbau ariannol

12. Yn dilyn dadansoddiad o oblygiadau'r gwelliannau newydd hyn, ystyriaf fod gofyn gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn gerbron y Senedd am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 13 i 23 isod.

**Darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer**

*Rhan 3: Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau - cymalau 85-107 (cymalau 61-77 fel y'u cyflwynwyd)*

13. Mae cymalau 85–107 (cymalau 61–77 fel y'u cyflwynwyd) yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wella cludadwyedd data (Data Clyfar). Mae'r cymalau hyn yn caniatáu ar gyfer rhannu data'n ddiogel, ar gais y cwsmer, â darparwyr trydydd parti awdurdodedig (ATP). Byddai'r rhain wedyn yn defnyddio'r data i ddarparu gwasanaethau i'r cwsmer, gan gynnwys newid cyfrif yn awtomatig, cymharu'r farchnad yn benodol i'r cwsmer, a gwasanaethau rheoli cyfrifon. Gall y cwsmer fod yn ddefnyddiwr neu'n fusnes.

14. Mae'r cymalau yn Rhan 3 yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys i fynnu bod cyflenwyr (fel y nodir yn y rheoliadau) a phersonau perthnasol eraill, yn rhannu data cwsmeriaid a data busnesau, i gyflwyno cynlluniau Data Clyfar mewn marchnadoedd ar draws yr economi.

15. Diben hyn yw gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cwsmer ac i fusnesau. Gosodwyd Memoranda yn flaenorol mewn perthynas â'r darpariaethau hynny ac mae'r gwelliannau a ganlyn yn berthnasol:

    - Gwelliant i gymal 96: Ardoll
    - Gwelliant i gymal 103: Rheoliadau o dan y Rhan hon

16. Mae'r gwelliant i gymal 96 Ardoll (OPC587) yn darparu bod y cyfyngiad yng nghymal 96(3) ar arfer y pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 96(1) (pŵer i godi ardoll) yn gymwys mewn cysylltiad â rheoliadau sy'n codi ardoll ar bersonau awdurdodedig neu dderbynyddion trydydd parti, yn ogystal â rheoliadau sy'n gosod ardoll ar ddeiliaid data.

17. Mae'r gwelliant i gymal 103 Rheoliadau o dan y Rhan hon (OPC608) yn ei gwneud yn glir y gellir bodloni'r gofyniad o dan gymal 103(9) i ymgynghori cyn gwneud y rheoliadau a ddisgrifir yng nghymal 103(7) drwy ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn i gymal 103 ddod i rym.

*Rhan 4, Darpariaeth arall ynghylch Gwybodaeth Ddigidol – cymalau 138–141 Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol*

18. Mae cymalau 138 i 141 yn diwygio Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, ac yn mewnosod Rhan ac Atodlen newydd iddi. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i gadw gofrestr o wybodaeth sy'n ymwneud â chyfarpar ar strydoedd, a bod y gofrestr honno'n cael ei galw'n y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol, ac maent yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â hynny.

19. Mae'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol, a ddatblygwyd gan y Comisiwn Geo-ofodol (rhan o'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg), yn fap digidol o bibellau a cheblau tanddaearol a fydd yn gwella'n sylweddol y ffordd y mae cyrff a'r diwydiant ledled y DU yn gosod, yn cynnal, yn gweithredu ac yn atgyweirio seilwaith tanddaearol.

20. Gosodwyd Memorandwm atodol 3 yn flaenorol mewn perthynas â'r darpariaethau hynny ac mae'r gwelliannau a ganlyn yn berthnasol:

- Gwelliant i gymal 138: Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol
- Gwelliant i gymal 139: Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar
- Gwelliant i Atodlen 13: Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol: cosbau ariannol

21. Mae'r gwelliannau i gymal 138: Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol fel a ganlyn:

- OPC630: Mae'r gwelliant yn symud y ddarpariaeth am y cam cychwynnol o lanlwytho gwybodaeth i'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol i adran newydd i'w fewnosod yn Rhan 3A o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (a fewnosodir gan y cymal hwn).
- OPC592: Mae’r gwelliant hwn yn ganlyniadol i welliant OPC630.
- OPC672: Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn glir y gall rheoliadau o dan adran 106B(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (a fewnosodir gan y cymal hwn) wneud darpariaeth ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth a gedwir yn y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol ar gael, yn ogystal â darpariaeth mewn cysylltiad â hynny.
- OPC674: Mae'r gwelliant hwn yn symud darpariaeth ynghylch trwyddedu a chodi ffioedd o dan reoliadau o dan adran 106B o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (a fewnosodir gan y cymal hwn) yn is-adran (2) o'r adran honno; ac yn ei gwneud yn glir y bydd y rheoliadau hynny ond yn darparu ar gyfer trwyddedu mewn perthynas â hawliau nad ydynt yn hawliau'r Goron.
- Mae OPC673 ac OPC637 yn ganlyniadol i welliant OPC674.
- Mae OPC638 yn darparu ar gyfer diffiniadau ac yn ganlyniadol i welliant OPC67.

22. Mae’r gwelliannau i gymal 139: Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar (OPC631 ac OPC632) yn ganlyniadol i welliant OPC630 i gymal 138 sy'n symud y ddarpariaeth am lanlwytho gwybodaeth yn gychwynnol i'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol i adran newydd i'w fewnosod

yn Rhan 3A o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (a fewnosodir gan gymal 138).

23. Mae'r gwelliant i Atodlen 13: Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol: cosbau ariannol (OPC677) yn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir ym mharagraffau 2 a 3 o Atodlen 5A i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (a fewnosodir gan yr Atodlen hon) yn gyson.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen i gael cydsyniad i'r gwelliannau a gyflwynwyd ar 13 Mawrth**

24. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod Rhan 3: Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, cymalau 85-107 (61-77 fel y'u cyflwynwyd) wedi'u datganoli i'r graddau y mae'r cwsmer yn fusnes ac nid yn unigolyn, ac felly mae angen ystyried cydsyniad deddfwriaethol ond mae'n gyfyngedig yn hyn o beth. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr, sef mater a gedwir yn ôl, yn gymwys (paragraff 72(a) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

25. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhan 4, Darpariaeth arall ynghylch Gwybodaeth Ddigidol – cymalau 138–141 Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

26. Er bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ers cyflwyno'r Bil, mae'r pryderon a amlinellwyd ar draws y tri Memorandwm blaenorol yn parhau mewn perthynas â goblygiadau datganoledig sawl darpariaeth yn y Bil:

- **Rhan 2, Porth Gwybodaeth Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) cymal 78 (p56 fel y'i cyflwynwyd) Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth** – gan fod cymalau 74 a 78 yn cael eu hystyried fel rhai sy’n ymwneud â materion datganoledig, mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r dull cyfredol i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn adlewyrchu datganoli a'i fod yn amhriodol.

- **Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau - cymalau 85-107 (p61-77 fel y'u cyflwynwyd)** - gan mai pwrpas y cymalau yn Rhan 3 o'r Bil yw gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid ac i fusnesau ac fe’i ystyrir ei fod yn ymwneud â materion datganoledig, sef busnes a'r economi, mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r dull cyfredol i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig unwaith eto'n adlewyrchu datganoli a'i fod yn amhriodol.

- **Rhan 4, Darpariaeth arall ynghylch Gwybodaeth Ddigidol – cymalau 126 Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r**

**gyfraith ar waith, cymal 127 Ystyr "appropriate national authority", a chymal 151 Rheoliadau** - mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer erlyn troseddau a chyflwyno cosbau troseddol mewn perthynas ag ystod eang o faterion datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru unwaith eto o'r farn nad yw rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn adlewyrchu datganoli a'i fod yn amhriodol.

Ein barn ni yw y gellid adlewyrchu cydnabyddiaeth briodol ar gyfer buddiannau datganoledig ochr yn ochr â rhinweddau posibl darparu polisi ledled y DU drwy roi pwerau cydredol plws ym mhob un o'r meysydd uchod. Byddai hyn yn sicrhau y gallai'r pwerau datganoledig gael eu harfer yng Nghymru lle bo hynny'n berthnasol, gan ddarparu ar yr un pryd bod unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i arfer y pwerau hynny yng Nghymru yn amodol ar gytundeb Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod y dull hwnnw, gan gynnig gwelliannau gan gynnwys pwerau cydredol (heb fecanweithiau cydsynio) a darpariaethau ymgynghori. Nid yw'r dull hwn yn cyd-fynd â'n hegwyddorion, na gwrthwynebiad cyson y Senedd i greu pwerau cydredol o'r fath.

- **Rhan 4, Darpariaeth arall ynghylch Gwybodaeth Ddigidol – cymalau 138–141 Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol –** o dan gymal 141, byddai pwerau penodol i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 yn cael eu trosglwyddo o Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ystyriwn fod tynnu swyddogaeth weithredol ddatganoledig yn mynd yn hollol groes i ddatganoli.

27. Mae pryderon o hyd ynghylch Rhan 1, Diogelu Data, cymal 41 Hysbysiadau Cyfweliadau hefyd. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys esemptiad ar gyfer y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (OfSTED). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai esemptiad tebyg gael ei roi i Weinidogion Cymru fel y Rheoleiddiwr ar gyfer y gwasanaethau cyfatebol yng Nghymru.

28. Ar ben hynny, mae pryderon yn parhau mewn perthynas â materion cydgysylltiedig annibyniaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac effaith y Bil ar statws Digonolrwydd Data'r DU, gyda nifer o'r darpariaethau'n cael eu hystyried yn heriol a chanddynt y potensial o gael eu hadolygu gan y Comisiwn a'u herio'n gyfreithiol yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

29. Mae'r pryder hwn ynghylch statws Digonolrwydd yn cael ei rannu gan eraill, ac fe'i adlewyrchir yn adroddiad Adran yr Economi Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon Deall risgiau trosglwyddo data personol ar draws ffiniau: Digonolrwydd Data UE-DU'.

**Goblygiadau ariannol**

30. Mae'n debygol y bydd goblygiadau ariannol i Gymru o ganlyniad i ddarpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol newydd. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn ystyried rhyw fath o fodel gwefru ar gyfer defnyddio'r Gofrestr, yn seiliedig ar opsiwn model adfer costau nid er elw. Gall hyn gynnwys rhyw fath o daliadau gostyngol neu esemptiad ar gyfer cyrff sector cyhoeddus a busnesau bach a microfusnesau.  Mae swyddogion yn gofyn i Lywodraeth y DU am fwy o fanylion am hyn, y costau tebygol i Gymru a'r hyn y bydd yn ei olygu'n ymarferol.

**Casgliad**

31. Er bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r amcanion polisi y tu ôl i'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Bil, credaf na ellir argymell rhoi cydsyniad i'r Bil hwn oherwydd y pryderon cyfansoddiadol sy'n parhau, fel yr amlinellir ym mharagraffau 26 i 29.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg**
**25 Ebrill 2024**